**Adroddiad ar gyfer:** **Pwyllgor Craffu Partneriaethau**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **31 Mai 2012**

**Awdur yr Adroddiad:** **Cydlynydd Craffu**

**Teitl:** **Rhaglen Waith Craffu**

---

## 1. Beth mae'r adroddiad yn ymwneud ag o?

Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau â'i flaenraglen waith ddrafft i'r aelodau ei hystyried.

## 2. Beth yw'r rheswm am wneud yr adroddiad yma?

I ofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei raglen o waith ar gyfer y dyfodol, ac i ddiweddaru aelodau ar faterion perthnasol.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth a ddarparwyd ac yn cymeradwyo, adolygu neu ddiwygio ei flaenraglen waith fel y bydd yn ei bennu'n addas.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae Erthygl 6 Cyfansoddiad y Cyngor yn gosod allan delerau gorchwyl, swyddogaethau ac aelodaeth pob Pwyllgor Craffu tra bod rheolau gweithdrefnau ar gyfer pwyllgorau craffu wedi eu gosod allan yn Rhan 4 y Cyfansoddiad.

4.2 Yn ôl Cyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych mae'n ofynnol i bwyllgorau craffu baratoi a pharhau i adolygu rhaglen ar gyfer eu gwaith yn y dyfodol. Drwy adolygu a blaenoriaethu materion, gall aelodau sicrhau fod y rhaglen waith yn cyflenwi agenda sydd dan arweiniad yr aelodau.

4.3 Mae wedi bod yn arfer mabwysiedig yn Sir Ddinbych am nifer o flynyddoedd i bwyllgorau craffu gyfyngu nifer yr adroddiadau a ystyrir mewn unrhyw gyfarfod unigol i uchafswm o bedwar yn ogystal â rhaglen waith y Pwyllgor ei hun. Nod y dull gweithredu yma ydi hwyluso trafodaeth fanwl ac effeithiol ar bob pwnc.

4.4 Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried ei raglen waith ddrafft ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol, fel y'u nodir yn atodiad 1, a chymeradwyo, adolygu neu ddiwygio fel y bydd yn ei bennu'n addas gan ystyried:

- materion a godir gan aelodau'r Pwyllgor
- materion fydd wedi eu cyfeirio ato gan Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu

- perthnasedd i flaenoriaethau cymunedol y Pwyllgor/Cyngor/gymuned
- Cynllun Corfforaethol y Cyngor ac Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
- baich gwaith cyfarfodydd
- llinellau amser
- canlyniadau
- materion allweddol a gwybodaeth i'w cynnwys mewn adroddiadau
- swyddogion a/neu aelodau arweiniol y Cabinet y dylid eu gwahodd (o ystyried a yw eu presenoldeb yn angenrheidiol neu'n ychwanegu gwerth)
- cwestiynau i'w rhoi i swyddogion/aelodau arweiniol y Cabinet

4.5 Wrth ystyried eitemau yn y dyfodol i'w cynnwys yn y flaenraglen waith gallai fod yn ddefnyddiol i aelodau ystyried y cwestiynau canlynol wrth bennu addasrwydd pwnc i'w gynnwys yn y rhaglen waith:

- beth yw'r mater dan sylw?
- pwy yw'r budd-ddeiliaid?
- beth sy'n cael ei ystyried mewn mannau eraill
- beth sydd ar graffu angen ei wybod?
- pwy allai gynorthwyo?

4.6 Blaenraglen waith ddrafft y Pwyllgor (atodiad 1) fel y mae ar hyn o bryd ydi'r un y mae wedi ei hetifeddu gan y pwyllgor a oedd yn ei ragflaenu. Gofynnir felly i Aelodau ystyried a yw'r rhaglen yn adlewyrchu dymuniadau a blaenoriaethau'r Pwyllgor newydd.

4.7 Fel y'i crybwyllir ym mharagraff 4.2 uchod mae'n ofynnol yn ôl Cyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych i bwyllgorau craffu baratoi a pharhau i adolygu rhaglen ar gyfer eu gwaith yn y dyfodol. Os ydi swyddogion o'r farn fod pwnc yn haeddu amser i'w drafod ar agenda busnes y Pwyllgor, mae'n rhaid iddyn nhw ofyn yn ffurfiol i'r Pwyllgor ystyried derbyn adroddiad ar y pwnc hwnnw. Bydd hynny'n cynorthwyo'r broses o flaenoriaethu adroddiadau. Gwneir hynny drwy gyflwyno 'ffurflen gynnig' sy'n egluro pwrpas, pwysigrwydd a chanlyniadau potensial materion a awgrymwyd. Bydd aelodau sy'n dychwelyd yn gyfarwydd â'r ffurflen yma, ond, er mwyn aelodau newydd, mae enghraifft o un o'r ffurflenni yma yn atodol fel atodiad 2. Ni dderbyniwyd unrhyw ffurflenni cynnig i'w hystyried gan y Pwyllgor yn y cyfarfod cyfredol.

4.8 <u>Blaenraglen Waith y Cabinet</u>
Mae'n ddefnyddiol i bwyllgorau craffu, wrth bennu eu rhaglen o waith ar gyfer y dyfodol, ystyried rhaglen waith restredig y Cabinet. Mae copi o flaenraglen waith y Cabinet wedi ei atodi yn Atodiad 3 i'r diben hwn.

4.9 <u>Cynnydd ar Benderfyniadau'r Pwyllgor</u>
Mae tabl sy'n crynhoi penderfyniadau diweddar y Pwyllgor a'u gweithrediad yn atodol yn Atodiad 4 i'r adroddiad hwn.

## 5. Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu

5.1 Dan drefniadau craffu'r Cyngor mae Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu'n perfformio rôl pwyllgor cydlynu.

5.2 Yn ei gyfarfod diwethaf cyn etholiadau'r Cyngor Sir fe gymeradwyodd Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu fod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau'n cynnwys eitem ar y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn ei raglen waith. O dderbyn yr eitem yma ar ei raglen waith bydd y Pwyllgor yn cydymffurfio â'i swyddogaeth ddynodedig y mae'n rhaid iddo ymgymryd ag o'n flynyddol o leiaf, yn ôl gofynion Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006, o graffu materion trosedd ac anhrefn. Mae eitem ar y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi ei rhoi dros dro ar raglen waith y Pwyllgor ar gyfer Medi 2012.

## 6. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd craffu effeithiol yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflenwi ei flaenoriaethau corfforaethol yn unol ag anghenion y gymuned a dymuniadau preswylwyr. Bydd datblygu ac adolygu'r rhaglen waith gydlynol yn barhaus yn cynorthwyo'r Cyngor gyda monitro ac adolygu materion polisi.

## 7. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd o'n effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae'n bosib y byddai angen i wasanaethau ddyrannu amser swyddog i gynorthwyo gyda'r gweithgareddau a nodwyd yn y flaenraglen waith, a chydag unrhyw gamau a allai ddeillio'n dilyn ystyriaeth o'r eitemau hynny.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gafwyd?

Dim yn ofynnol ar gyfer yr adroddiad yma. Fodd bynnag, mae'r adroddiad ei hun ac ystyriaeth o'r flaenraglen waith yn cynrychioli proses ymgynghori â'r Pwyllgor o ran ei raglen o waith ar gyfer y dyfodol.

## 9. Pa risgiau sydd yna ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Ni nodwyd unrhyw risgiau o ran yr ystyriaeth o flaenraglen waith y Pwyllgor. Fodd bynnag, drwy adolygu ei flaenraglen waith yn rheolaidd gall y Pwyllgor sicrhau fod meysydd o risg yn cael eu hystyried a'u harchwilio wrth iddyn nhw gael eu nodi, ac fe wneir argymhellion gyda'r bwriad o ddelio â'r risgiau hynny.

**10. Grym i wneud y penderfyniad**

Mae Erthygl 6.3.7 Cyfansoddiad y Cyngor yn amodi fod yn rhaid i bwyllgorau craffu'r Cyngor baratoi a pharhau i adolygu rhaglen ar gyfer eu gwaith yn y dyfodol.

**Swyddog Cyswllt:**
Rhif ffôn Cydlynydd Craffu: (01824) 712554
E-bost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk